***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 1

## CORFF LLAIS Y DINESYDD AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## **RHAN 4**

### SWYDDOGAETHAU ATEGOL ETC.

*Pwyllgorau*

11 (1) Caiff Corff Llais y Dinesydd sefydlu pwyllgorau ac is-bwyllgorau.

(2) Caiff pwyllgor neu is-bwyllgor gynnwys personau nad ydynt yn aelodau o’r Corff neu fod â phersonau o’r fath yn unig.

(3) Caiff y Corff dalu treuliau a lwfansau i unrhyw berson—

(a) sy’n aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlir o dan y paragraff hwn, a

(b) nad yw’n aelod o’r Corff, nac yn aelod o’i staff.